

Dalier sylw!

Gweler yn atodiedig rai esiamplau o waith ar gyfer aseiniad ECAD4003/C. Cofier mai rhannau o aseiniadau sydd yma ac mai enghreifftiau ydynt nid esiamplau perffaith. Y bwriad yw cynnig arweiniad pellach i chi.

Ni ddylid ar unrhyw gyfrif gopïo yr esiamplau air am air. Bydd gwneud hynny yn ymddangos fel llen-ladrad o fewn Turnitin a gallwch fethu yr asesiad o ganlyniad i hyn.

Esiampl o gyflwyniad:

Wrth ystyried pwysigrwydd gwybodaeth pwnc athrawon mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, gwelir bod y safonau Statws Athro Cymwysiedig, yn nodi y dylai fod gan athro/wes wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc neu'r pynciau y maent wedi'u hyfforddi i addysgu (____, ____). Dadleua _____ (2014) taw gwybodaeth pwnc cadarn yw un o'r ffactorau pwysicaf o ran bod yn athro/wes llwyddiannus gan ei fod yn sicrhau llwyddiant yn natblygiad y plant. Adlewyrchir hyn yng ngwaith _____ (____, t. __) sy'n nodi y dylai athrawon effeithiol fod â gwybodaeth pwnc gadarn yn sail i'w gwersi. Ar y llaw arall, noda _____ (____) ei bod yn hollbwysig ystyried gallu athrawon i drosglwyddo eu gwybodaeth mewn modd dealladwy i'w disgyblion. Hynny yw, nid yw cael gwybodaeth pwnc cadarn ynddo'i hun yn sicrhau addysgu effeithiol. Dadleuir felly bod ystyriaethau addysgegol hefyd yn bwysig i athrawon er mwyn sicrhau bod disgyblion yn caffael gwybodaeth mewn modd diddorol, ymgysylltiol a chofiadwy (____, ____; ____; ____).

A fewn yr aseiniad hwn gwelir dadansoddiad o bwysigrwydd gwybodaeth pwnc athrawon mewn perthynas ag addysgu iaith a mathemateg tra ar Brofiad Addysgu Proffesiynol (PAP) mewn ysgol gynradd wledig yng ngorllewin Cymru. Yn benodol, trafodir dosbarth o blant blwyddyn un, gyda daudddeg-tri o ddysgwyr pump i chwech oed. Wrth adfyfrio'n gritigol ar wersi iaith, cyfeirir at sgil o'r llinyn 'darllen' yn y Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2015). Yr agwedd yn yr achos hwn yw 'darllen a deall', a'r sgil yw 'ail-ddweud digwyddiadau o ddarn o naratif yn y drefn gywir' (Llywodraeth Cymru, 2015: 26). Wrth ystyried rôl gwybodaeth pwnc mewn mathemateg, cyfeirir yn benodol at sgil o'r llinyn 'defnyddio sgiliau rhif'. Yr elfen yn yr achos hwn yw 'rheoli arian', a'r sgil yw 'defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at 20c' (Llywodraeth Cymru, 2015: 34).

Esiampl o drafodaeth ar addysgu iaith:

Yn ystod y cyfnod PAP gwelwyd esiampl o ddarllen ar y cyd gyda defnydd o symudiadau i gofio ac ail-ddweud stori. Nod y gwersi oedd datblygu'r sgil o ailadrodd stori o'r llinyn darllen (Llywodraeth Cymru, 2015) gan ddefnyddio strategaethau Pie Corbett (____). Wrth ddechrau ar y gyfres o wersi gwelwyd y dosbarth cyfan yn cyd-ddarllen stori '_____' o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Fel rhan o'r profiad roedd yr athrawes yn modelu'r broses o ddarllen i'r plant gan ddilyn y testun gyda ffon. Amlygir hyn fel arfer dda gan Estyn, a phwysleisiant bod angen i athrawon sicrhau eu bod yn modelu'r broses o ddarllen er mwyn addysgu strategaethu darllen sylfaenol i'r disgyblion (____, ____ t. ____). Gellir cysylltu hyn gyda synaiddaeth Vygotsky o'r plentyn yn dysgu oddi wrth unigolyn mwy cymwys o fewn y Parth Datblygiad Procsimol (____, ____). Fel rhan o hyn, roedd y plant yn medru caffael geiriau newydd, mwy heriol o'r testun wrth ddarllen ar y cyd, na phetaent yn darllen y testun yn unigol. Defnyddiwyd strategaethau cwestiynu amrywiol gan yr athrawes er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac roedd modd i'r disgyblion i ddysgu oddi wrth ei gilydd, yn unol â syniadaeth adeileddiaeth gymdeithasol. Roedd y broses o gwestiynu yn arddangos sgiliau addysgegol yr athrawes ac yn fodd iddi asesu dealltwriaeth y disgyblion yn ffurfiannol er mwyn gwybod pa agweddau i ail-ymweld â hwy wrth gynllunio gwersi dilynol (____, ____). Gwelir felly bod gwybodaeth pwnc athrawon yn cynnwys adnabyddiaeth o'r dysgwr a bod angen addasu cwetisynau a gwersi er mwyn ateb gofynion y dosbarth (____, ____).

Yn unol â dull Pie Corbett (____) roedd cyfle i'r dosbarth ail-ymweld â'r stori ar sawl achlysur, gyda'r athrawes yn defnyddio ei gwybodaeth pwnc i dynnu sylw at wahanol agweddau ar bob achlysur. Er mwyn ail-ymweld ag agweddau o'r stori oedd yn anghyfarwydd neu yn peri trafferth i'r disgyblion gwelwyd bod y plant yn cael cyfleoedd i ail-adrodd patrymau brawddeg syml, megis y ffurf negyddol 'doedd'. Roedd hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r disgyblion i ddefnyddio'r patrymau mewn cyd-destunau y tu hwnt i'r stori ei hun, er eu bod yn deillio yn wreiddiol o'r stori. Roedd hyn yn adeiladu ar y syniad o gymhwyso dealltwriaeth sy'n greiddiol i ddatblygiad disgyblion (____, ____). Wrth adeiladu tuag at y nod o fedru ail-adrodd digwyddiadau o'r stori yn y drefn gywir defnyddiwyd map stori. Roedd y map stori yn sgaffaldio'r naratif i'r disgyblion drwy eu helpu i gofio'r stori mewn dull gweledol ac yn cysylltu gydag argymhellion Llywodraeth Cymru o'r angen i gynorthwyo datblygiad disgyblion Cyfnod Sylfaen (____, t. ____). Unwaith eto, modelwyd y broses o greu map gan yr athrawes cyn i'r disgyblion gyd-weithio ar greu mapiau. Dadleua _____ (____) y dylai disgyblion fod yn ran weithredol o'r dysgu a bod hyn yn nodwedd allweddol o addysgu sy'n gysylltiedig ag adeileddiaeth.

Gan ddefnyddio sgaffald y map stori roedd modd i'r disgyblion ymarfer y sgil o ail-ddweud y stori ar lafar yn y drefn gywir. Gwelwyd drwy hyn bod cyswllt cryf rhwng y darllen a'r llafar o fewn y gwersi. Amlygir pwysigrwydd esblygu ac ehangu iaith lafar plant yn y cyfnodau cynnar, gan ei fod yn sylfaen i'r llinynnau eraill, megis darllen ac ysgrifennu (_____, ___, t. ____). O ganlyniad, mae'n bwysig bod athrawon yn dylanwadu'n bositif ar iaith eu disgyblion gan ddefnyddio eu gwybodaeth pwnc er mwyn modelu iaith Gymraeg gyfoethog a sicrhau cyfleoedd i'r disgyblion i glywed ac ymarfer patrymau iaith cywir. Fodd bynnag, dadleua Estyn nad yw ymarferwyr yn cynorthwyo plant yn ddigonol yn eu datblygiad darllen (_____, _____, t. ____). Yn sicr, o fewn y gwersi a arsylwyd arnynt mewn perthynas gyda'r sgil o ail-ddweud naratif sydd dan sylw, roedd y disgyblion yn datblygu ystod o sgiliau y tu hwnt i'r darllen, gan gynnwys llafar, ac yn ddiweddarach ysgrifennu, o fewn y casgliad o wersi. Gellir dadlau felly bod angen i athrawon dargedu cynorthwyo'r sgiliau darllen yn gyson, er mwyn sicrhau datblygiad sgiliau iaith cyffredinol y disgyblion. Trwy wneud hyn yn effeithiol wrth dargedu'r llinyn darllen, yn enwedig yng nghyd-destun y sgil o ail-ddweud stori, bydd modd i blant ehangu eu gwybodaeth nid yn unig o sut i ddarllen yn gywir, ond hefyd eu hiaith yn gyffredinol; gan fod y plant yn derbyn esiampl ac yn medru ymarfer y sgil yn unigol neu mewn grŵp hefyd (_____, _____, t. ____). Oherwydd y cyswllt rhwng y gwahanol linynnau ieithyddol, dadleuir felly bod angen gwybodaeth pwnc cadarn ar athrawon o draws-doriad o sgiliau iaith, er mwyn medru cysylltu datblygiad un sgil gydag ystod o sgiliau cysylltiedig.

Esiampl o drafodaeth ar addysgu mathemateg:

Wrth adfyfyrio'n gritigol ar gyfres o wersi mathemateg i flwyddyn dau, canolbwyntir ar y sgil 'adnabod llinell gymesuredd siapiau 2D a chwblhau lluniau cymesur' (_____, _____, t. ____). O fewn y gwersi a drafodir, gwelwyd bod gwybodaeth pwnc yr athro yn cwmpasu nid yn unig y wybodaeth gwricwlaidd gysylltiedig megis y defnydd cywir o dermau, ond bod hefyd angen dealltwriaeth o strategaethau i gynorthwyo dealltwriaeth y disgyblion o'r cysyniadau mathemategol.

Wrth drafod gwaith Rousseau (_____, _____) pwysleisir dysgu gweithredol lle caiff blant brofiadau ymarferol er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth mewn ffordd mwy addas i gyd-destun y byd 'go-iawn'. Atgyfnerthir y syniad hwn yng ngwaith Froebel (_____, _____) oedd hefyd o'r farn bod plant yn dysgu trwy chwarae, a thrwy arbrofi gydag adnoddau a deunyddiau gwahanol pan yn dysgu. O fewn y cyd-destun Cymreig adlewyrchir hyn o fewn syniadaeth y Cyfnod Sylfaen, gyda phwylais pendant ar ddysgu gweithredaol a thrwy brofiad sy'n adlewyrchu'r syniadaeth adeileddol (_____, _____). Wrth addysgu gymesuredd yn benodol rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion i adeiladu ar eu dealltwriaeth o gymesuredd nid yn unig o fewn y grŵp ffocws ond hefyd o fewn gwahanol ardaloedd yn y dosbarth. Fel rhan o hyn defnyddiwyd cyd-destunau cyfarwydd i'r disgyblion oedd yn cysylltu gyda bywyd pob dydd, yn unol ag argymhellion Donaldson o wneud y dysgu yn berthnasol ac yn

drawgwricwlaidd (_____, _____, t.____). Gwelwyd darluniau, logos a siapiau cymesur yn cael eu harddangos i'r disgyblion a thynnwyd sylw at y rhai yn yr amgylchedd o'u cwmpas.

Yn ystod y Profiad Addysgu Proffesiynol gwelwyd yr athro yn defnyddio amryw o dechnegau i egluro'r cysyniad o gymesuredd i blant. Er enghraifft, defnyddiwyd ciwbiau a llinell cymesuredd er mwyn i'r plant gyfateb y patrwm ar ochr arall y llinell. Gellir cysylltu hyd gyda rhannau o'r Model Cysylltu (_____a _____, _____) oherwydd rhoddwyd profiad diriaethol i'r disgyblion yn ogystal â darlun o batrwm cymesur. Er bod yr athro yn cyfuno'r gweledol a'r diriaethol gwelwyd bod rhai plant yn canfod y weithgaredd yn heriol. Defnyddiodd yr athro ei wybodaeth pwnc er mwyn addasu'r addysgu a chyflwyno'r cysyniad mewn dull newydd. Aethpwyd ati i gael darn o bapur, ei blygu, yna paentio un ochr a'i blygu eto. Pan agorwyd y papur roedd yna ddau batrwm cyffelyb, ac eto roedd y cysyniad o lun cymesur yn cael ei atgyfnerthu yn weledol ond mewn ffordd symlach. Yn ddiweddarach gosodwyd her o fewn y ddarpariaeth gyfoethogi lle'r oedd modd i'r disgyblion weithio yn annibynnol ar baentio lluniau cymesur wrth blygu papur. Gweithgaredd oedd yn rhoi cyfle i'r disgyblion adeiladu ar eu dealltwriaeth, gan gysylltu gyda syniadaeth Froebel (____, _____) a Rousseau (____, ____). Syniad pellach ar gyfer datblygu hyn fyddai defnyddio sisyrnau a thorri patrymau ar bapur sydd wedi plygu er mwyn dangos i'r plant ddull arall o greu patrymau cymesur mewn modd creadigol a gweledol.

Dadleua _____ (____), bod addysgu mathemateg mewn modd creadigol yn allweddol ac yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol. Er mwyn medru gwneud hyn fodd bynnag, mae angen i'r athro ystyried sut gellir cysylltu ei wybodaeth bwnc o gysyniad megis cymesuredd, gyda gwahanol weithgareddau. Yn ogystal, er mwyn i'r plant ddysgu yn drwasgwricwlaidd rhaid tynnu ar wybodaeth pwnc o fwy nag un maes, rhywbeth a argymhellir o fewn y datblygiadau cwricwlaidd diweddaraf yng Nghymru (_____, _____). Un esiampl o hyn a welwyd oedd defnydd o raglen gyfrifiadurol lle'r oedd modd i'r disgyblion i dynnu llun cymesur wrth reoli'r llygoden, gan roi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu'r elfen 'Creu' o fewn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (_____, _____). Unwaith eto gellir cysylltu hyn gydag agweddau darluniau a phrofiad diriaethol y Model Cysylltu (_____a _____, _____). Wrth esbonio'r model, nododd Haylock a Thangata (____) bwysigrwydd darparu ffyrdd gwahanol i blant i ddysgu cysyniad mathemategol, gan gysylltu iaith, symbolau, darluniau a rhoi profiadau diriaethol iddynt. Er nad oedd symbolau yn gwbl berthnasol yn y gwersi cychwynol ar gymesuredd datblygwyd hyn ymhellach wrth i'r disgyblion fynd ati i 'adnabod llinell gymesuredd siapiau 2D'.